# Gyrfaoedd a sgiliau gwyddonol

## Canllaw i Athrawon
## Cymru

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# Deunyddiau cefnogi gyrfa

## Beth ydyn nhw?

Mae’r deunyddiau cefnogi gyrfa wedi’u dylunio i helpu eich dysgwyr i ddeall sgiliau hanfodol ar gyfer y byd gwaith ac i archwilio’r gwahanol fathau o yrfaoedd sy’n defnyddio sgiliau gwyddonol. Darperir tri math o adnodd:

- ffeiliau ffeithiau am yrfaoedd
- didoli cardiau sgiliau
- poster gyrfaoedd.

Mae’r canllaw i athrawon yn rhoi syniadau a chefnogaeth ar gyfer defnyddio’r gwahanol adnoddau wrth addysgu yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer gwahanol ystodau oedran: 4–7 oed, 7–9 oed neu 9–11 oed. Nid yw’n darparu cynlluniau gwersi manwl.

Mae’r syniadau ategol sy'n dilyn hefyd yn amlygu cyfleoedd i ymarfer llythrennedd a rhifedd yn ogystal â sgiliau gwyddonol ehangach, DT a TG.

## Sut mae pob adnodd yn gweithio?

Mae’r **ffeiliau ffeithiau am yrfaoedd** yn rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am wahanol yrfaoedd sy’n gysylltiedig â phynciau’r cwricwlwm a’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob swydd. Rydym wedi darparu dwy fersiwn. Mae gan un lai o destun a bydd yn addas i’w defnyddio gyda dysgwyr sydd angen cymorth gydag iaith.

Mae **didoli cardiau sgiliau** yn gêm y gall dysgwyr ei chwarae i drafod a chytuno ar y sgiliau pwysicaf ar gyfer y gwahanol swyddi.


Mae’r **poster gyrfaoedd** yn gyfres o ddau boster y gallwch ei defnyddio i helpu dysgwyr i ddychmygu eu hunain mewn amrywiaeth o yrfaoedd gwyddonol.

## Sut mae eu defnyddio?

Does dim ffordd gywir neu anghywir o ddefnyddio’r adnoddau gyrfa. Rydym yn argymell y ffyrdd canlynol, ac mae llawer o syniadau da ar y tudalennau sy'n dilyn:

1. **Eich cefnogi i addysgu am yrfaoedd drwy ddefnyddio cyd-destunau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth.** Os ydych chi’n mynd at yr adnoddau gyrfa gyda’ch pwnc penodol mewn golwg, bydd yr adnoddau’n tynnu sylw at feysydd gwyddoniaeth y gallech chi gysylltu â nhw. Os ydych chi yn y sefyllfa hon, mae gennych yr hyblygrwydd i ddewis y cyd-destun gwyddonol sy’n cyd-fynd â’ch pwnc orau.
2. **Eich cefnogi i addysgu gwyddoniaeth gyda gyrfaoedd fel ‘bachyn’.** Os ydych chi’n mynd at yr adnoddau gyrfa gan ganolbwyntio ar addysgu gwyddoniaeth, bydd yr adnodd yn darparu ffyrdd o gyflwyno gyrfaoedd yng nghyd-destun gwyddoniaeth neu roi ‘bachyn’ ar gyfer y pwnc.
3. **Eich helpu i gynllunio ffocws ysgol gyfan neu grŵp blwyddyn gyfan ar yrfaoedd.** Os ydych chi’n mynd at yr adnoddau gyrfa gan ganolbwyntio ar yrfaoedd, naill ai ar draws yr ysgol neu mewn grŵp blwyddyn, bydd yr adnoddau’n eich helpu i ddod o hyd i weithgareddau sy’n briodol ar gyfer pob grŵp oedran.







ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# Rhagor o syniadau

Mae'r adnoddau gyrfa hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth gynradd a'r cwricwlwm ehangach. Mae llawer o ffyrdd eraill hefyd y gallwch ymgorffori gyrfaoedd yn eich cwricwlwm cynradd, er enghraifft:

- Ymgorffori gyrfaoedd yn eich cynlluniau tymor hir.
- Annog pobl i ddod i mewn i siarad â'r myfyrwyr, ee rhieni/gofalwyr, y gymuned leol, llysgenhadon STEM.
- Gofyn i'r disgyblion dynnu llun o wyddonydd a nodi camsyniadau posibl.
- Gallai pob grŵp blwyddyn gael ei gysylltu â diwydiant, ee ffermio, milfeddygon, meddyginiaeth neu wyddor bwyd, felly erbyn i ddysgwyr adael yr ysgol bydd ganddyn nhw syniad am chwe diwydiant gwahanol.
- Creu cornel gyrfaoedd gyda phosteri/gwybodaeth/arddangosfeydd.
- Defnyddio 'Mantle of the Expert' fel techneg addysgu sy'n defnyddio cyd-destunau dychmygol i lunio gweithgareddau pwrpasol a diddorol ar gyfer dysgu: https://www.mantleoftheexpert.com/what-is-moe/
- Defnyddio llyfrau stori i gyflwyno gyrfaoedd neu i seilio gwers arnyn nhw ee mae 'The City of Ember' yn cysylltu â thrydan neu mae 'Flat Stanley' yn cysylltu â gyrfaoedd meddygol.
- Cynnal wythnos gyrfaoedd, gan wahodd ymwelwyr, neu ofyn iddyn nhw recordio fideos yn egluro eu swyddi a phwysigrwydd gwyddoniaeth.
- Ar gyfer pob uned astudiaeth/pob hanner tymor, gallai pob grŵp blwyddyn ganolbwyntio ar wyddonydd cysylltiedig (gwyddonydd allweddol) ac yna dysgu amdano a defnyddio hynny fel bachyn ar gyfer ymchwiliadau.
- Gwisgo i fyny yn yr yrfa rydych wedi'i hastudio.
- Defnyddio tasgau bore sy'n canolbwyntio ar y gyrfaoedd wrth i ddysgwyr ddod i mewn i'r ystafell ddosbarth.
- Cysylltu'r gwaith am yrfaoedd â dysgu am arian, lle bydd dysgwyr yn treulio diwrnod mewn gyrfa ac yn sefydlu busnes, ee sefydlu marchnad ffermwyr. Gallai hyn hefyd gysylltu â Dylunio a Thechnoleg yn gwneud (er enghraifft) bwyd neu eitemau i'w gwerthu yn y farchnad.

# Rhestrau gwirio sgiliau

Gellir defnyddio'r rhestrau gwirio sgiliau hyn gydag unrhyw un o'r adnoddau gyrfa, a gellir hefyd eu defnyddio ar eu pennau'u hunain pan fyddwch chi'n addysgu am yrfaoedd. Er enghraifft, gallech eu defnyddio i wneud y canlynol:

- gofyn i'r myfyrwyr gynnal 'archwiliad sgiliau' cyn dechrau unrhyw un o'r gweithgareddau gyrfaoedd a ddarperir, gan edrych ar eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain neu'r pethau maen nhw'n eu mwynhau fwyaf neu leiaf. Gweler y dudalen ganlynol am fersiynau i ddysgwyr o'r rhestrau hyn
- gofyn i'r myfyrwyr adolygu'r rhestr wirio sgiliau ar ôl cyflawni tasg gweithio'n wyddonol, gan nodi'r sgiliau roedden nhw'n teimlo eu bod wedi'u defnyddio ar gyfer y dasg honno
- rhoi'r dysgwyr mewn grwpiau bach, a rhoi sgil wahanol neu set o sgiliau i bob grŵp o'r rhestr wirio, cyn gofyn iddyn nhw ddylunio arbrawf neu ran o arbrawf i ateb yr un cwestiwn gan ddefnyddio'r sgiliau hynny.

## 4–7 oed

Ar gyfer y grŵp oedran hwn, y sgiliau gwyddonol i'w hystyried yw:

- gofyn cwestiynau syml
- gwneud rhagfynegiadau syml
- arsylwi'n fanwl
- adnabod a dosbarthu
- cyflawni profion syml
- awgrymu atebion i gwestiynau gan ddefnyddio arsylwadau a syniadau
- casglu a chofnodi data.

## 7–9 oed

Ar gyfer y grŵp oedran hwn, y sgiliau gwyddonol i'w hystyried yw:

- gofyn cwestiynau a gwneud rhagfynegiadau
- gwneud arsylwadau gofalus gan ddefnyddio amrywiaeth o offer
- casglu, cofnodi, dosbarthu a chyflwyno data i ateb cwestiynau
- sefydlu ymholiadau ymarferol, profion cymharol a theg
- dod i gasgliadau o'r data.

## 9–11 oed

Ar gyfer y grŵp oedran hwn, y sgiliau gwyddonol i'w hystyried yw:

- gofyn cwestiynau a gwneud rhagfynegiadau ar sail gwybodaeth
- cynllunio a sefydlu gwahanol fathau o ymholiadau gwyddonol i ateb cwestiynau, gan gynnwys nodi a rheoli newidynnau
- gwneud arsylwadau a mesuriadau systematig a gofalus gan ddefnyddio amrywiaeth o offer gwyddonol gan wella cywirdeb a thra-chywirdeb wrth ddefnyddio ystod o offer
- casglu, cofnodi, dosbarthu a chyflwyno data mewn amrywiaeth gynyddol o ffyrdd, gan gynnwys diagramau a labeli, allweddi dosbarthu, tablau a graffiau.

## Pob grŵp oedran

Gallai dysgwyr hefyd ystyried ymddygiadau dysgu eraill, fel:

- cydweithio
- canolbwyntio
- chwilfrydedd
- archwilio
- rhoi cynnig arni
- datrys problemau
- adfyfyrio
- gwytnwch
- dyfeisgarwch.

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# Rhestrau gwirio sgiliau – ar gyfer dysgwyr

Mae'r fersiynau hyn o'r sgiliau wedi'u cynllunio i fod yn addas i ddysgwyr eu defnyddio eu hunain.

## Sgiliau gwyddonol 4–7 oed

- ☐ Gofyn cwestiynau
- ☐ Gwneud rhagfynegiadau
- ☐ Arsylwi'n ofalus
- ☐ Adnabod
- ☐ Dosbarthu
- ☐ Cyflawni profion syml
- ☐ Awgrymu atebion i gwestiynau
- ☐ Casglu data
- ☐ Cofnodi data

## Sgiliau gwyddonol 7–9 oed

- ☐ Gofyn cwestiynau
- ☐ Gwneud rhagfynegiadau
- ☐ Arsylwi'n ofalus
- ☐ Adnabod
- ☐ Dosbarthu
- ☐ Cyflawni profion syml
- ☐ Awgrymu atebion i gwestiynau
- ☐ Casglu data
- ☐ Cofnodi data
- ☐ Defnyddio cyfarpar
- ☐ Cyflwyno data
- ☐ Sefydlu ymholiadau ymarferol
- ☐ Sefydlu profion cymharol
- ☐ Sefydlu profion teg
- ☐ Dod i gasgliadau o'r data

## Sgiliau gwyddonol 9–11 oed

- ☐ Gofyn cwestiynau
- ☐ Gwneud rhagfynegiadau
- ☐ Arsylwi'n ofalus
- ☐ Adnabod
- ☐ Dosbarthu
- ☐ Cyflawni profion syml
- ☐ Awgrymu atebion i gwestiynau
- ☐ Casglu data
- ☐ Cofnodi data
- ☐ Defnyddio cyfarpar
- ☐ Cyflwyno data
- ☐ Sefydlu ymholiadau ymarferol
- ☐ Sefydlu profion cymharol
- ☐ Sefydlu profion teg
- ☐ Dod i gasgliadau o'r data
- ☐ Adnabod newidynnau
- ☐ Rheoli newidynnau
- ☐ Gwneud mesuriadau cywir a thra-chywir
- ☐ Cyflwyno data gan ddefnyddio diagramau a labeli
- ☐ Defnyddio allweddi dosbarthu
- ☐ Defnyddio tablau a graffiau

## Sgiliau dysgu eraill – pob grŵp oedran

- ☐ Cydweithio
- ☐ Canolbwyntio
- ☐ Chwilfrydedd
- ☐ Archwilio
- ☐ Rhoi cynnig arni
- ☐ Datrys problemau
- ☐ Adfyfyrio
- ☐ Gwytnwch
- ☐ Dyfeisgarwch

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# Gêm didoli cardiau sgiliau


## Sut mae eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth?

- Dechreuwch drwy roi i'ch dysgwyr y cardiau sgiliau sy'n briodol i'w grŵp oedran.
- Trafodwch y sgiliau sydd wedi'u rhestru a gwnewch yn siŵr bod pob dysgwr yn deall beth mae pob sgil yn ei olygu.
- Rhowch y dysgwyr mewn grwpiau bach, gyda set o gardiau sgiliau a tharged.
- Dangoswch y sleidiau, gan ddechrau â'r ddelwedd gyntaf. Mae'n debygol y bydd angen i chi drafod yr enghraifft gyntaf gyda'r dosbarth, a gofyn iddyn nhw pa sgiliau sydd fwyaf/lleiaf pwysig ar gyfer yr yrfa honno, a pham. Gofynnwch iddyn nhw roi'r cardiau sgiliau yn y lle priodol ar y targed (canol ar gyfer y pwysicaf, y tu allan ar gyfer y lleiaf pwysig).
- Yna rhowch 5 munud iddyn nhw edrych ar bob sleid a gwneud yr un peth ar gyfer pob gyrfa.
- Gallech ofyn i'r grwpiau dynnu llun o bob targed gyda chamera.
- Ar y diwedd, gallech ofyn:
  - A oedd rhai sgiliau yn bwysig i lawer o yrfaoedd?
  - A oedd unrhyw sgiliau nad oeddent yn bwysig o gwbl?
  - Ym mha yrfa oedd ganddyn nhw ddiddordeb o bosibl?
  - Pa sgiliau oedden nhw'n teimlo eu bod yn gallu eu gwneud orau?
- Defnyddiwch ddull diemwnt naw i ddidoli'r cardiau sgiliau o'r mwyaf i'r lleiaf pwysig, a chofnodi hyn yn eu llyfrau.

## Pa ddeunyddiau a ddarperir?


- 'Targed' A4 – gwnewch yn siŵr fod un ar gyfer pob grŵp
- Cardiau sgiliau – un set ar gyfer pob grŵp
- Sleidiau o wahanol yrfaoedd (lluniau a theitlau)


















ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

7–9, 9–11 oed

# Posteri gyrfaoedd


## Sut mae eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth? 4–7 oed

- Rhowch boster i’w liwio i bob un o’r dysgwyr.
- Siaradwch yn gryno am y gwahanol gymeriadau yn y poster a gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn gwybod beth yw pob un o’r gyrfaoedd a ddangosir.
- Cyn dechrau lliwio, gallech siarad fel dosbarth am y gwahanol yrfaoedd a gofyn iddyn nhw pa fath o sgiliau (gallech chi ddefnyddio’r cardiau sgiliau yma) fyddai’n ddefnyddiol ar gyfer y gwahanol rolau.
- Rhowch amser i’r dysgwyr liwio’r cymeriadau.
- Yna gallai’r dosbarth drafod pa un (neu fwy) o’r gyrfaoedd sy’n ennyn eu diddordeb fwyaf.
- Gallai’r poster hefyd fod yn eitem dysgu gartref dda y gall y dysgwyr ei drafod gyda’u rhieni cyn mynd ati i’w liwio.
- Yna gallech greu arddangosfa gyda’r posteri gorffenedig.
- Gallech ddefnyddio’r posteri gorffenedig i chwarae gemau fel:
  - **Tabŵ:** mae’r dysgwyr yn dewis gyrfa ac yn ei disgrifio heb ei henwi.
  - **21 cwestiwn:** mae un dysgwr yn dewis gyrfa ac mae'r gweddill yn gofyn cwestiynau er mwyn dyfalu pa un ydyw. Dim ond atebion ie/na a ganiateir.
  - **Mi welaf i:** yn hytrach na rhoi’r llythyren gyntaf, rhowch ddarn o gyfarpar neu ddillad sydd eu hangen ar y person, ac mae’n rhaid i’r dysgwyr eraill ddyfalu pa un ydyw.

## Pa ddeunyddiau a ddarperir?

- Dau boster ar gyfer gwahanol grwpiau oedran
- Ochr lliwio: 4–7 oed
- Ochr tynnu llun ohonoch chi eich hun: 7–9 oed




## Sut mae eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth? 7–9 oed

- Rhowch boster i dynnu llun ohono’i hun i bob un o’r dysgwyr.
- Siaradwch am y gwahanol fathau o yrfaoedd maen nhw’n gallu meddwl amdanyn nhw sy’n defnyddio gwyddoniaeth, gan ddefnyddio’r awgrymiadau ar y poster neu’r gwaith rydych chi wedi’i wneud yn barod am yrfaoedd.
- Gofynnwch i’r dysgwyr dynnu llun ohonyn nhw eu hunain yn y canol, yn gwneud gwaith maen nhw’n credu y bydden nhw’n ei fwynhau neu’n gallu ei wneud yn dda. Anogwch nhw i gynnwys cliwiau am yr yrfa maen nhw wedi’i dewis, fel dillad neu offer.
- Yna gallai’r dosbarth drafod pam eu bod wedi dewis yr yrfa honno a pha sgiliau sydd ganddyn nhw sy’n golygu y bydden nhw’n gallu ei gwneud yn dda.
- Gallai’r poster hefyd fod yn eitem dysgu gartref dda y gall y dysgwyr ei drafod gyda’u rhieni.
- Gallech greu arddangosfa gyda’r posteri gorffenedig.
- Gallwch gysylltu’r gwaith hwn â thynnu hunanbortreadau wrth drefnu’r cwricwlwm.

# Ffeiliau ffeithiau am yrfaoedd

## Sut mae eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth?

- Defnyddiwch y rhain fel bachyn mewn gwers gwyddoniaeth (ee, cyflwynwch y pwnc cyffredinol, edrychwch ar y ffeiliau ffeithiau ar gyfer swyddi sy'n gysylltiedig â dysgu'r pwnc hwnnw, cyn symud ymlaen i addysgu cynnwys y pwnc).
- Defnyddiwch y rhain i addysgu gwers am yrfaoedd, gan edrych ar wahanol yrfaoedd a'r math o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob un.
- Defnyddiwch y rhain i addysgu am sgiliau ochr yn ochr â'r cardiau sgiliau. Gallech ofyn i fyfyrwyr gynnal 'archwiliad sgiliau' cyn edrych ar y ffeiliau ffeithiau am yrfaoedd a nodi'r amrywiaeth o yrfaoedd sydd o ddiddordeb iddynt a defnyddio'u cryfderau personol o ran sgiliau.
- Defnyddiwch y rhain fel bachyn ar gyfer thema dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, gallech ddefnyddio'r ffeiliau ffeithiau i ddysgu am yrfaoedd o fewn y pwnc cyflwr mater, cyn ehangu ar draws eich gwersi Saesneg, Dylunio a Thechnoleg, mathemateg a daearyddiaeth.
- Defnyddiwch y rhain i ddatblygu dysgwyr gydol oes sy'n ceisio datblygu eu sgiliau dysgu.
- Defnyddiwch y rhain i ddatblygu eu goreuon personol.
- Defnyddiwch y rhain fel bod dysgwyr yn gallu llunio cwestiynau ac arwain eu hymholiadau eu hunain.

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

### 4–7 oed
- Deunyddiau bob dydd

### 7–9 oed
- Creigiau a phriddoedd
- Cyflwr mater

### 9–11 oed
- Priodoleddau a newidiadau deunyddiau


## Pa ddeunyddiau a ddarperir?

- Pedair ffeil ffeithiau (gyda dwy fersiwn o bob un) yn canolbwyntio ar wahanol yrfaoedd sy'n gysylltiedig â'r pynciau canlynol:
  - Deunyddiau bob dydd (blwyddyn 1 a 2)
  - Creigiau a phriddoedd (blwyddyn 3)
  - Cyflwr mater (blwyddyn 4)
  - Priodoleddau a newidiadau deunyddiau (blwyddyn 5).
- Rydym wedi darparu dwy fersiwn o bob ffeil ffeithiau. Mae gan un lai o destun ac felly byddai'n addas i ddysgwyr sydd angen cymorth gydag iaith.










ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Ar y tudalennau nesaf yn y llawlyfr Sut i Wneud hwn, fe welwch awgrymiadau manylach ar ddefnyddio pob ffeil ffeithiau wrth addysgu'r cwricwlwm mewn gwyddoniaeth ac ar draws y cwricwlwm.

4–7, 7–9, 9–11 oed




# Deunyddiau bob dydd

## Cyflwyno'r pwnc

Wrth fynd i'r afael â'r pwnc hwn, bydd dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth bod deunyddiau'n ffurfio popeth o'n cwmpas. Gallech ddechrau'r pwnc gyda bag mawr o drysor i ennyn diddordeb y dysgwyr ac annog datblygu geirfa.

## Dyfeisiwr

- **Saesneg:** Gallai'r dysgwyr ddyfeisio eu côt eu hunain. Yna gallen nhw dynnu llun ohoni a'i labelu ac ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio eu dyfais.
- **Celf:** Gallai'r dysgwyr ddefnyddio celf i arddangos eu syniadau am ddyfeisiadau. Gallen nhw greu gludweithiau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.
- **Dolenni llyfrau:** Gan ddefnyddio *We're Going on a Bear Hunt* gan Michael Rosen, gall dysgwyr fynd ar helfa am ddeunyddiau ac yna creu fersiwn newydd o'r stori gan ddefnyddio'r deunyddiau maen nhw wedi dod o hyd iddyn nhw. Defnyddiwch *Paddington* gan Michael Bond fel bachyn i brofi gwahanol ddeunyddiau i greu côt 'Macintosh' newydd sy'n dal dŵr ar gyfer Paddington Bear (gan gysylltu â'r dyfeisiwr, Charles Macintosh).

## Gwneuthurwr teganau

- **Saesneg:** Gallai dysgwyr ddyfeisio eu tegan eu hunain. Yna gallen nhw dynnu llun ohono a'i labelu ac ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio eu tegan.
- **Mathemateg:** Gallai dysgwyr roi detholiad o deganau mewn trefn o'r hiraf i'r byrraf neu o'r trymaf i'r ysgafnaf.
- **Hanes/Cyfrifiadura:** Drwy gysylltu â phwnc Hanes Teganau, gallai'r dysgwyr ymchwilio i ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i wneud teganau a sut mae hynny wedi newid dros amser. Gallai'r dysgwyr hefyd greu llinell amser.

## Peiriannydd strwythurol

- **Saesneg/Dylunio a Thechnoleg:** Bydd y dysgwyr yn dylunio, yn gwneud ac yn gwerthuso tai o wahanol ddeunyddiau. Gellid cysylltu hyn â'r *Tri Mochyn Bach* a gallai'r dysgwyr eu helpu i greu strwythur cryf a chadarn.
- **Saesneg/Dylunio a Thechnoleg:** Gellid rhoi detholiad o ddeunyddiau i'r dysgwyr adeiladu pont a dod yn 'beiriannydd strwythurol'. Gallai'r deunyddiau gynnwys adnoddau ar gyfer y dosbarth (ee gwellt celf, glud a cherdyn) neu ddeunyddiau o'r awyr agored (ee ffyn, cerrig a dail). Gellid cysylltu hyn â'r *Tri Bwch Gafr* lle bydd y dysgwyr yn adeiladu pont i gynnig llwybr arall i'r geifr ei ddefnyddio er mwyn cyrraedd man diogel.

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# Ffeiliau ffeithiau am yrfaoedd
## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm: Creigiau a phriddoedd


Ffeil ffeithiau Creigiau a phriddoedd

Creigiau a phriddoedd

**Beth yw daearegydd?**

Mae daearegydd yn astudio'r Ddaear a sut mae wedi'i gwneud. Efallai y bydd yn edrych ar yr arwyneb neu'n ddwfn o dan y ddaear. Mae daearegwyr yn gweithio mewn llawer o wahanol ddiwydiannau, fel:

- cloddio a chwarela
- peirianneg
- olew a phetrolewm
- diogelu'r amgylchedd
- fylcanoleg (astudio llosgfynyddoedd)
- seismoleg (astudio daeargrynfeydd)
- British Lithium (cwmni cloddio).

Y Dysgu Allweddol a'r Sgiliau Gwyddoniaeth sy'n angenrheidiol:

- Chwilfrydedd ynghylch y byd o'u cwmpas oherwydd bydd daearegwyr yn defnyddio mapiau i deithio'r byd, gan dreulio amser yn yr awyr agored.
- Arsylwi a chofnodi eu canfyddiadau'n ofalus a chyflwyno manylion cywir ynghylch yr hyn sydd yn y ddaear.

*Dyma Lucy Crane. Mae hi'n ddaearegydd sy'n gweithio gyda chwmni sy'n bwriadu cloddio am lithiwm i'w ddefnyddio mewn batris ar gyfer ceir trydan.*

**Beth yw gwyddonydd pridd?**

Mae gwyddonydd pridd yn astudio'r pridd o dan ein traed. Mae hyn yn bwysig mewn llawer o ddiwydiannau, fel:

- ffermio
- diogelu'r amgylchedd
- adeiladu a thirlunio.

Y Dysgu Allweddol a'r Sgiliau Gwyddoniaeth sy'n angenrheidiol:

- Diddordeb yn y byd naturiol ac yn mwynhau bod yn yr awyr agored yn dysgu am briddoedd a sut maen nhw'n helpu planhigion.
- Cyflawni profion syml i ganfod y mathau o bridd a sut i'w defnyddio.

*Dyma Sahil. Mae o'n wyddonydd pridd sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae wedi bod yn astudio sut mae gwahanol blanhigion yn helpu i wella'r pridd mewn gwledydd sych.*

**Beth yw paleontolegydd?**

Mae paleontolegydd yn astudio ffosiliau (gan gynnwys dinosoriaid!) i ddysgu am hanes bywyd ar y Ddaear. Mae paleontolegwyr yn gweithio mewn gwahanol leoedd, gan gynnwys:

- amgueddfeydd
- prifysgolion
- yn yr awyr agored yn datgloddio ffosiliau.

Y Dysgu Allweddol a'r Sgiliau Gwyddoniaeth sy'n angenrheidiol:

- Amynedd a gwytnwch wrth ddefnyddio offer yn ofalus i ddod o hyd i ffosiliau a'u datgelu.
- Arsylwi'n ofalus gan ddefnyddio dulliau adnabod a dosbarthu (didoli a grwpio) i ddod o hyd i ffosiliau newydd a chanfod i ba ddinosor roedden nhw'n perthyn.

*Dyma Xu Xing. Mae o'n baleontolegydd ac yn gweithio yn Tsieina. Mae wedi enwi mwy o ddinosoriaid nag unrhyw baleontolegydd byw arall.*

*Fyddech chi'n hoffi defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddysgu am greigiau a phriddoedd pan fyddwch chi'n hŷn? Efallai y byddech chi'n hoffi bod yn ddaearegydd neu'n baleontolegydd? Tybed a oes rhagor o swyddi sy'n defnyddio'r hyn a ddysgir am greigiau a phriddoedd?*

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# Creigiau a phriddoedd

## Cyflwyno'r pwnc

Wrth fynd i'r afael â'r pwnc hwn, cyfeiriwch at y dysgwyr fel 'daearegwyr' tra byddan nhw'n astudio creigiau, ffosiliau a phriddoedd. Dylid sicrhau bod cyfleoedd i'r dysgwyr ddarganfod, trin ac ymchwilio drostynt eu hunain.

## Daearegydd

- **Mathemateg:** Gallai'r dysgwyr ddefnyddio priodoleddau gwahanol greigiau i greu cardiau *Top Trumps*. Yna gallen nhw gymharu, trefnu, dosbarthu a chanfod y gwahaniaeth wrth ddefnyddio'r cardiau.
- **Dolenni llyfrau:** *The Pebble in my Pocket: A history of Earth* gan Meredith Hooper.
- **Daearyddiaeth:** Bydd y dysgwyr yn archwilio creigiau yn eu hardal leol. Mae eglwys leol yn lle da i edrych ar greigiau, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir mewn adeiladau a cherrig beddi, ac archwilio sut a pham y gallen nhw fod wedi newid dros amser.
- **Celf:** Gallai'r dysgwyr wneud mowldiad ffosil neu ffosil ambr.
- **Ymarfer corff:** Gallai'r dysgwyr ddatblygu dawns i ddangos sut mae creigiau'n ffurfio.
- **Cyfrifiadura:** Gallai'r dysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth drwy ymchwilio i adnoddau eilaidd.

### Dolen Ehangach:

- **Minecraft:** Efallai y bydd gan rai dysgwyr sydd wedi chwarae'r gêm wybodaeth dda am greigiau fel gwenithfaen, cwarts ac obsidian.


## Gwyddonydd pridd

- **Gwyddoniaeth:** Bydd dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am bridd wrth astudio planhigion. Gallen nhw gynnal amrywiaeth o ymchwiliadau sy'n ymwneud ag iechyd planhigion.

## Paleontolegydd

- **Saesneg:** Gallai'r dysgwyr ysgrifennu naratif neu ddefnyddio stribed comig i ddangos eu dealltwriaeth o daith ffosil o'i ffurf wreiddiol i gael ei ffosileiddio.
- **Dolenni llyfrau:** *Stone Age Boy* gan Stoshi Kitamura a *Stig of the Dump* gan Clive King.
- **Hanes:** Bydd y dysgwyr yn archwilio Oes y Cerrig ac yn edrych sut roedd creigiau'n siapio bywyd bob dydd; byddan nhw hefyd yn ystyried pam fod creigiau mor bwysig o ran cynnig porth i ddeall hanes newidiadau ym Mhrydain o Oes y Cerrig i'r Oes Haearn. Gellid cysylltu hyn â gwaith ymchwilio i rôl archeolegwyr hefyd.
- **Dylunio a Thechnoleg:** Gallai'r dysgwyr ddylunio, gwneud, a gwerthuso model o Gôr y Cewri. Yn ystod eu taith i wneud y model, gallen nhw ymchwilio i amrywiaeth o ddeunyddiau y byddai'n well eu defnyddio.
- **Cyfrifiadura:** Gallai'r dysgwyr ymchwilio i Mary Anning gan ddefnyddio'r llyfr: *Stone Girl Bone Girl: The Story of Mary Anning of Lyme Regis* neu BBC Teach True Stories: Mary Anning: https://www.bbc.co.uk/teach/class-clips-video/true-stories-maryanning/zn7gd6f

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY


Beth yw gwyddonydd bwyd?
Cyflwr mater
Beth yw cemegydd meddyginiaethol?
Beth yw nanotechnolegydd?
Ffeil ffeithiau Cyflwr mater

# Cyflwr mater

## Cyflwyno'r pwnc

Wrth fynd i'r afael â'r pwnc hwn, gwnewch yn siŵr fod y dysgwyr yn deall beth yw nwy, hylif a solid cyn cymryd rhan mewn gweithgareddau didoli.

## Gwyddonydd bwyd

- **Saesneg:** Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu adolygiad prawf blasu fel beirniaid ar gyfer cwmnïau diodydd ynghylch sut mae gwella blas eu diodydd pop.
- **Mathemateg:** Wrth gymharu a grwpio deunyddiau yn ôl a ydyn nhw'n solid, yn hylif neu'n nwy, gallai'r dysgwyr 'fynd i siopa bwyd' . Rhowch fag siopa i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ddidoli'r cynnwys mewn tri chylch: solid, hylif neu nwy. Gallai hyn gynnwys gwerthoedd ariannol a gellid ei gysylltu â Mathemateg – Arian. Pa eitemau sy'n fwy drud? Solid, hylif neu nwy?
- **Daearyddiaeth:** Gallai'r dysgwyr archwilio gwareiddiad y Maiaid a sut roedden nhw'n defnyddio ffa i greu siocled. Er mwyn treiddio'n ddyfnach, gallai dysgwyr ymchwilio i'r llwybrau masnach.
- **Celf:** Bydd y dysgwyr yn defnyddio siocled i greu celf. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr doddi'r siocled a defnyddio bag peipio i greu llun neu i ysgrifennu eu henw'n greadigol. Yna gallan nhw edrych ar sut mae'n newid o soled i hylif cyn dychwelyd i fod yn solid. Gallai'r dysgwyr hefyd greu celf swigod a meddwl am wahanol gyflyrau mater sy'n rhan o'r broses.
- **Dylunio a Thechnoleg:** Gallai'r dysgwyr baratoi pryd sy'n cynnwys toddi neu rewi cynhwysion fel siocled. Gallai'r dysgwyr hefyd ddylunio, gwneud a gwerthuso eu diod pop eu hunain gan ddefnyddio amrywiaeth o gynhwysion ac archwilio pa gynhwysion sy'n toddi.
- **Gwyddoniaeth/Gweithio'n Wyddonol:** Gan ddefnyddio'r 'Arbrawf Resins yn Dawnsio', gellid gofyn i'r dysgwyr feddwl yn ddwfn am y sgiliau maen nhw'n eu defnyddio, a pha yrfaoedd allai fod angen defnyddio'r un sgiliau.

## Nanotechnolegydd

- **Cyfrifiadura:** Gallai'r dysgwyr fod yn nanotechnolegwyr a defnyddio sgiliau codio. Mae sawl llwyfan i wneud hyn. Er enghraifft:

  https://microbit.org
  https://www.purplemash.com/
  https://hourofcode.com/uk/learn

## Cemegydd meddyginiaethol

- **Saesneg:** Gallai'r dysgwyr ysgrifennu eu cyfarwyddiadau eu hunain ar sut i wneud edlynnau neu feddyginiaethau.
- **Dolenni llyfrau:** *George's Marvellous Medicine* gan Roald Dahl a Quentin Blake. *River Story* gan Meredith Hooper a Bee Willey.
- **Hanes:** Gallai dysgwyr archwilio hanes meddyginiaeth. Er enghraifft, yr Eifftiaid Hynafol, defnydd o'r Afon Nîl, yr Hen Roegiaid, dealltwriaeth o'r pedwar gwlybwr a'r Rhufeiniaid, iechyd y cyhoedd.

# Ffeiliau ffeithiau am yrfaoedd
# Cysylltiadau â'r cwricwlwm: Priodoleddau a newidiadau deunyddiau


Ffeil ffeithiau Priodoleddau a newidiadau deunyddiau

Priodoleddau a newidiadau deunyddiau

**Beth yw gwyddonydd ymchwil batris?**

Mae gwyddonydd batris yn ceisio gwneud batris sy'n perfformio'n well drwy ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau. Mae hyn yn bwysig mewn llawer o weithleoedd, fel:

- labordai ymchwil
- prifysgolion
- diwydiant, gan gynnwys cwmnïau cerbydau.

Y Dysgu Allweddol a'r Sgiliau Gwyddoniaeth sy'n angenrheidiol:
- Gweithiwr tîm ac yn amyneddgar wrth ymchwilio.
- Gwneud rhagfynegiadau ar sail ei ddealltwriaeth o drydan o ran pa ddeunyddiau sy'n fwy addas nag eraill.

*Dyma Lizzie. Mae hi'n wyddonydd ymchwil batris sy'n gweithio ym Mhrifysgol Birmingham. Mae ei hymchwil yn edrych ar wneud deunyddiau batri newydd ar gyfer batris Li-ion. Gellir dod o hyd i'r batris hyn mewn ffonau symudol a dyfeisiau tabled.*

**Beth yw cemegydd ffisegol?**

Mae cemegydd ffisegol yn astudio sut mae deunyddiau'n newid a sut mae adweithiau cemegol yn digwydd. Newidiodd Ruth Benerito briodweddau cotwm fel nad yw'n crychu nac yn staenio, ac mae'n gallu gwrthsefyll fflamau. Mae ei gwaith hi a gwaith cemegwyr ffisegol eraill yn bwysig mewn llawer o weithleoedd, fel:

- siopau gwerthu dillad
- prifysgolion
- labordai ymchwil.

Y Dysgu Allweddol a'r Sgiliau Gwyddoniaeth sy'n angenrheidiol:
- Cydnerthedd wrth sefydlu ystod o ymholiadau ymarferol i ddatrys problemau.
- Dod i gasgliadau i ddatrys problemau drwy chwilio am batrymau neu gynnal profion cymharol a theg.

*Dyma Ruth Benerito. Dyfeisiodd ffabrig cotwm nad yw'n crychu. Cydnabyddir mai hi achubodd y diwydiant cotwm.*

**Beth yw technegydd lliwiau?**

Mae technegydd lliwiau'n fath o driniwr gwallt sy'n defnyddio gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg i greu gwahanol lifynnau. Mae'r llifynnau'n cael eu defnyddio i liwio gwallt. Mae'n bosib iddyn nhw weithio mewn:

- salonau trin gwallt
- sbas neu barlyrau harddwch
- gwestai neu longau mordeithio.

Y Dysgu Allweddol a'r Sgiliau Gwyddoniaeth sy'n angenrheidiol:
- Creadigrwydd a chydweithio i greu llifynnau sy'n addas ar gyfer gwahanol fathau o wallt.
- Arsylwi'n ofalus sut mae llifynnau'n newid lliw gwallt.

*Dyma Alisha Dobson. Mae hi'n trin gwallt yn Llundain ac yn arbenigo mewn lliwio gwallt. Mae hi wedi lliwio gwallt enwogion, gan gynnwys Jessie J, Motsi Mabuse a M.I.A.*

*Fyddech chi'n hoffi defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddysgu am briodoleddau a newidiadau deunyddiau pan fyddwch chi'n hŷn? Tybed a oes rhagor o swyddi sy'n defnyddio'r hyn a ddysgir am briodoleddau a newidiadau deunyddiau?*

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

## Priodoleddau a newidiadau deunyddiau

## Cyflwyno'r pwnc

Wrth fynd i'r afael â'r pwnc hwn, mae'n bwysig adeiladu ar wybodaeth flaenorol. Bydd dysgwyr ym mlwyddyn 1 a 2 wedi profi deunyddiau. Ym mlwyddyn 3, byddan nhw wedi gwneud hynny mewn perthynas â phriodoleddau creigiau a sut mae deunyddiau'n ymateb i fagnetau a grymoedd. Ym mlwyddyn 4, bydd y dysgwyr wedi edrych ar ddargludedd deunyddiau.

## Ymchwilydd batris

- **Dylunio a Thechnoleg/Saesneg:** Bydd y dysgwyr yn defnyddio gwahanol fatris i greu cerdyn neu wrthrych sy'n goleuo neu i bweru cerbyd. Yna gallai'r dysgwyr ysgrifennu adroddiad anghronolegol am eu dyluniad sy'n defnyddio batri.
- **Mathemateg:** Gallai'r dysgwyr ymchwilio i ffynonellau o ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy ac arddangos eu canfyddiadau mewn diagram Venn.
- **Daearyddiaeth:** Gall y dysgwyr ddefnyddio map o'r byd i ddangos y prif wledydd sy'n cynhyrchu deunydd batris.

## Cemegydd ffisegol

- **Saesneg:** Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu hysbyseb ar gyfer cotwm nad yw'n crychu, ac yn egluro sut roedd Ruth Benerito wedi gwella cynnyrch cotwm a sut y gall newid eich bywyd!
- **Dolenni llyfrau:** *The Borrowers* gan Mary Norton a *Kensuke's Kingdom* gan Michael Morpurgo (gweler https://www.stem.org.uk/resources/community/collection/341333/kensukes-kingdom-properties-materials) - mae'r ddau'n cynnig ffordd o ddarparu cyd-destun ystyrlon.
- **Gwyddoniaeth:** Dilynwch y ddolen hon i ddod o hyd i ragor o ffyrdd o gysylltu â chemegwyr ffisegol: https://edu.rsc.org/primary-science/primary-science-videodemonstrations/4013260.article

## Technegydd lliwiau

- **Celf a Dylunio/Hanes/Saesneg:** Gallai'r dysgwyr ddysgu sut y gellir creu llifynnau naturiol o ddeunyddiau planhigion a chreu eu llifynnau naturiol eu hunain a'u defnyddio i lifo cotwm. O hyn, gall y dysgwyr greu gwisg y cyfnod ar gyfer doli beg ac yna ysgrifennu llyfryn gwybodaeth am ddillad a hetiau o'r oesoedd canol i ddynion a merched, cyfoethog a thlawd.
- **Celf:** Bydd y dysgwyr yn arbrofi â gwahanol lifynnau a sut maen nhw'n newid lliw gwahanol ddeunyddiau.
- **Ysgol Goedwig:** Bydd y dysgwyr yn defnyddio llifynnau naturiol o blanhigion (ee tyrmerig neu fetys) i greu dillad clymliwiedig.

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY